monmouthshire
sir fynwy



# STRATEGAETH SEILWAITH GWYRDD

Ebrill 2024

## Crynodeb Gweithredol

## NEGESEUON ALLWEDDOL

- Wedi'i chyhoeddi gyntaf yn 2019, mae'r Strategaeth Seilwaith Gwyrdd wedi'i hadolygu i adlewyrchu newidiadau ym mholisi, Strategaeth Seilwaith Gwyrdd Rhanbarthol newydd Grid Gwyrdd Gwent a data sylfaenol wedi'i ddiweddaru. Mae'r adolygiad hefyd yn adlewyrchu'r cynnydd o ran cyflawni prosiectau seilwaith gwyrdd dros y 5 mlynedd diwethaf.
- Mae Polisi Cynllunio Cymru 12 yn diffinio Seilwaith Gwyrdd fel 'rhwydwaith o nodweddion naturiol a lled-naturiol, mannau gwyrdd, afonydd a llynnoedd sy'n croesi ac yn cysylltu lleoedd' (fel trefi a phentrefi).
- Mae'r Strategaeth Seilwaith Gwyrdd hon yn hyrwyddo dull integredig a chydgysylltiedig o ddarparu Seilwaith Gwyrdd sy'n ystyried anghenion cymunedau, amgylchedd ac economi Sir Fynwy.
- Egwyddor trosfwaol bwysig sy'n sail i'r Strategaeth yw'r angen i gydnabod natur aml-swyddogaethol asedau Seilwaith Gwyrdd ac i wneud y mwyaf o'r buddion y gall gwahanol asedau eu darparu trwy ddull integredig. Er enghraifft, gellir defnyddio mannau gwyrdd ar gyfer cynhyrchu bwyd cynaliadwy, cyfrannu at reoli llifogydd a darparu mynediad i fyd natur ar gyfer gweithgareddau hamdden anffurfiol. Gall y manteision hyn gefnogi gwell iechyd a lles, lliniaru/addasu hinsawdd a bioamrywiaeth.
- Mae'n hanfodol bod y rhyngberthynas a'r cysylltiadau rhwng y prosiectau unigol a amlinellir yn y Cynllun Cyflenwi Seilwaith Gwyrdd yn cael eu hystyried yn eu cyfanrwydd er mwyn sicrhau y manteisir i'r eithaf ar gyfleoedd ar gyfer canlyniadau a rennir a'r buddion i'r ddwy ochr.



## AMLINELLU'R SEFYLLFA

### Cefndir

Mae'r Strategaeth hon yn nodi dull Cyngor Sir Fynwy o gynllunio, rheoli a darparu Seilwaith Gwyrdd (SG) sy'n canolbwyntio ar yr amcanion a'r blaenoriaethau strategol canlynol:

- Gwella Iechyd a Lles
- Gwella Bioamrywiaeth a Chynyddu Gwydnwch Ecosystemau
- Cefnogi Gwydnwch Hinsawdd a Natur
- Cryfhau Cymeriad a Hynodrwydd y Dirwedd
- Cefnogi Datblygiad Economaidd Cynaliadwy

Wrth wneud hynny, bydd y Strategaeth Seilwaith Gwyrdd yn helpu i gyfrannu at gyflawni:

- Cynllun Datblygu Lleol Newydd
- Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol Cyngor Sir Fynwy
- Strategaeth a Chynlluniau Gweithredu Argyfwng Hinsawdd a Natur Cyngor Sir Fynwy
- Blaengynllun a Chynllun Gweithredu Dygnwch Bioamrywiaeth ac Ecosystemau Cyngor Sir Fynwy
- Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cyngor Sir Fynwy
- Cynlluniau Llesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

## Trosolwg o'r Strategaeth Seilwaith Gwyrdd

Paratowyd y Strategaeth gan CBA ar ran Cyngor Sir Fynwy.

**Cyfrol 1 – Fframwaith Strategol (y ddogfen hon)**

Mae Cyfrol 1 y Strategaeth yn nodi fframwaith strategol y Cyngor ar gyfer darparu SG yn Sir Fynwy. Mae'n nodi blaenoriaethau allweddol a chyfleoedd strategol lle byddai adfer, cynnal a chadw, creu neu gysylltu nodweddion a swyddogaethau gwyrdd yn sicrhau'r buddion mwyaf arwyddocaol, ar sail sir gyfan ac ar gyfer lleoliadau lle mae twf wedi'i gynllunio yng Nghynllun Datblygu Lleol Amnewid Sir Fynwy 2018-2033 a'r Strategaeth a Ffefrir (cymeradwywyd Hydref 2023).

Fel sy'n ofynnol gan Bolisi Cynllunio Cymru, mae'r Strategaeth SG yn cael ei llywio gan Asesiad Seilwaith Gwyrdd ar gyfer Sir Fynwy (gweler Cyf 1 Atodiad D) a ddatblygwyd yn unol ag egwyddorion Nodyn Canllaw Asesu Seilwaith Gwyrdd CNC 42 (2023).

**Cyfrol 2 – Cynllun Cyflenwi**

Mae Cyfrol 2 y Strategaeth yn darparu Cynllun Cyflenwi'r Cyngor ar gyfer Seilwaith Gwyrdd yn Sir Fynwy. Wedi'i ddarparu fel dogfen ar wahân, mae'r Cynllun Cyflenwi yn cynnwys cynlluniau gweithredu â blaenoriaeth ar gyfer cyflawni prosiectau SG ar raddfa strategol/tirwedd, a phrosiectau SG lleol i gefnogi datblygiad yn y lleoliadau twf allweddol ac aneddiadau eilaidd gwledig. Mae'r cynlluniau gweithredu wedi'u cynllunio i gefnogi ceisiadau am arian gan y Cyngor a'i bartneriaid cyflawni.

**Cronfa Ddata GIS o Asedau Seilwaith Gwyrdd**

Mae'r Cyngor yn cadw Cronfa Ddata GIS gynhwysfawr a hawdd ei defnyddio o asedau SG a gwybodaeth gysylltiedig, sy'n darparu arf ar gyfer llywio penderfyniadau wrth gynllunio defnydd tir a rheoli tir mewn perthynas â SG.

Bydd y Strategaeth Seilwaith Gwyrdd yn cael ei hadolygu'n barhaus gan y Cyngor a'i diweddaru yn ôl yr angen i ystyried amgylchiadau sy'n newid.

## Beth yw Seilwaith Gwyrdd (SG)?

Mae Pennod 6 (Lleoedd Unigryw a Naturiol) Polisi Cynllunio Cymru 12 yn diffinio SG fel a ganlyn:

*'Seilwaith Gwyrdd yw'r rhwydwaith o nodweddion naturiol a lled-naturiol, mannau gwyrdd, afonydd a llynnoedd sy'n croesi ac yn cysylltu lleoedd.*

*Gall elfennau cydrannol o seilwaith gwyrdd weithredu ar wahanol raddfeydd ac mae rhai cydrannau, megis coed a choetir, yn aml yn bresennol yn gyffredinol ac yn gweithredu ar bob lefel.*

*Ar raddfa'r dirwedd, gall seilwaith gwyrdd gynnwys ecosystemau cyfan megis gwlyptiroedd, dyfrffyrdd, mawndiroedd a chadwyni o fynyddoedd neu fod yn rhwydweithiau cysylltiedig o gynefinoedd mosaig, gan gynnwys glaswelltiroedd.*

*Ar raddfa leol, gallai gynnwys parciau, caeau, pyllau, mannau gwyrdd naturiol, hawliau tramwy cyhoeddus, rhandiroedd, mynwentydd a gerddi neu gall fod yn nodweddion dylunio neu reoli megis systemau draenio cynaliadwy.*

*Ar raddfeydd llai, gall ymyriadau trefol unigol megis coed stryd, gwrychoedd, ymylon ffyrdd, a thoeau/waliau gwyrdd oll gyfrannu at rwydweithiau seilwaith gwyrdd.'*


© Arlington County


© Giorgio Galeotti


© Monmouthshire County Council


© Jonathan Billinger

## Ystod o Raddfeydd SG/Cysylltedd

Addasiad o 'GI Design and Placemaking' (Llywodraeth yr Alban, 2011)

### STEPEN DRWS



- Toeau gwyrdd
- Waliau gwyrdd
- Gerddi domestig
- Systemau casglu dŵr glaw
- Tramwyfeydd athraidd
- Delltweithiau/ pergolâu

**CYSYLLTIADAU**

- Palmantau
- Llwybrau beicio
- Coridorau gwyrdd

### STRYDOEDD



- Nodweddion terfyn (gwrychoedd)
- Coed stryd a choed gardd flaen
- Ymylon glaswellt
- Systemau draenio cynaliadwy (e.e. pantiau)
- Palmant mân-dyllog

**CYSYLLTIADAU**

- Llwybrau troed
- Llwybrau beicio
- Coridorau gwyrdd
- Coridorau glas

### CYMDOGAETHAU



- Parciau a gerddi cyhoeddus
- Parciau poced a pharciau
- Meysydd hamdden a mannau chwarae
- Caeau chwarae a meysydd chwaraeon
- Rhandiroedd a gerddi cymunedol
- Mannau gwyrdd amwynder
- Mannau claddu a mynwentydd
- Mannau dinesig/strydoedd i gerddwyr
- Tiroedd sefydliadol
- Pantiau, cyrs, pyllau, dyfrffosydd
- Coetiroedd trefol a gwarchodfeydd natur

**CYSYLLTIADAU**

- Cysylltiadau gwlad a thref
- Coridorau gwyrdd
- Coridorau glas
- Llwybrau a hyrwyddir
- Rhwydwaith Hawliau Tramwy
- Llwybrau beicio

### CEFN GWLAD AC ARFORDIR



- Parciau Cenedlaethol, Tirweddau Cenedlaethol/ AHNE a Safleoedd Treftadaeth y Byd
- Parciau gwledig a gerddi
- Tir fferm
- Coetiroedd, perthi a choed
- Ucheldiroedd
- Glaswelltiroedd
- Gwlyptiroedd
- Arfordiroedd
- Dalgylchoedd afonydd
- Gwarchodfeydd natur a safleoedd bywyd gwyllt
- Cyrsiau golff
- Meysydd pentref a pherllannau

Am hawlfraint delwedd gweler y prif adrodiad

# STRATEGAETH SEILWAITH GWYRDD

## Diben **ar gyfer Seilwaith Gwyrdd yn Sir Fynwy**

**Mae gan Sir Fynwy rwydwaith seilwaith gwyrdd amlswyddogaethol sydd â chysylltiadau da sy'n cynnwys mannau gwyrdd o ansawdd uchel a chysylltiadau sy'n cynnig llawer o fanteision i bobl a bywyd gwyllt.**

**Mae cyfanrwydd a chysylltedd y rhwydwaith yn cael eu cynnal, eu diogelu a'u gwella mewn ffordd sydd wedi'i chynllunio a'i rheoli, sy'n cydnabod cyd-ddibyniaeth ac amlswyddogaetholdeb elfennau tirwedd, treftadaeth a bioamrywiaeth.**

**Mae buddsoddi mewn Seilwaith Gwyrdd yn sail i lwyddiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol parhaus y Sir drwy gefnogi twf cynaliadwy, gwella ansawdd bywyd a lle, darparu dygnwch ecosystemau a mynd i'r afael ag argyfyngau natur a hinsawdd.**

**Mae Sir Fynwy yn lle gwyrdd ac iach i fyw, gyda rhwydwaith ecolegol cynyddol gydlynol a gwydn o gynefinoedd bywyd gwyllt, gan helpu i warchod bioamrywiaeth.**



Mae'r ddiben Seilwaith Gwyrdd wedi'i hategu gan y tri nod craidd canlynol:

1. **Cefnogi iechyd a lles gan ddarparu cymunedau cryf a lleoedd bywiog; cyfoethogi bywydau pobl trwy ymgysylltu a gweithgareddau**
2. **Cynnal a gwella bioamrywiaeth a chefnogi ecosystemau gwydn i fynd i'r afael ag argyfyngau natur a hinsawdd**
3. **Cadw, gwarchod a gwella asedau SG Sir Fynwy**

Gyda'i gilydd, mae'r ddiben a'r tri nod craidd yn darparu'r fframwaith trosfwaol ar gyfer camau gweithredu cadarnhaol gan yr holl randdeiliaid sy'n ymwneud â diogelu, rheoli a gwella Seilwaith Gwyrdd yn Sir Fynwy yn y dyfodol.

## Amcanion Seilwaith Gwyrdd Strategol

Cefnogir diben a nodau craidd y Strategaeth Seilwaith Gwyrdd gan bum amcan strategol a blaenoriaethau cysylltiedig ar gyfer llywio cynllunio,rheoli a chyflwyno Seilwaith Gwyrdd yn Sir Fynwy. Adlewyrchir yr amcanion a'r blaenoriaethau hyn yn y prosiectau SG a nodir yn y Cynllun Cyflenwi (gweler Cyfrol 2), a bwriedir eu defnyddio hefyd wrth fonitro canlyniadau prosiectau. Yr amcanion SG strategol yw:

1. **Gwella Iechyd a Lles**
2. **Gwella Bioamrywiaeth a Chynyddu Gwydnwch Ecosystemau**
3. **Cefnogi Gwydnwch Hinsawdd a Natur**
4. **Cryfhau Cymeriad a Hynodrwydd y Dirwedd**
5. **Cefnogi Datblygiad Economaidd Cynaliadwy**

Bydd amcanion y Strategaeth Seilwaith Gwyrdd yn cyfrannu at Nodau Llesiant Cenedlaethol Llywodraeth Cymru, ac Amcanion Llesiant Lleol ac Amcanion Bioamrywiaeth a Dygnwch y Cyngor fel y nodir isod:

| Amcan Strategaeth SG | Nodau Llesiant Cenedlaethol (gweler Blwch 3.3) | | | | | | | Amcanion Llesiant Lleol (gweler Blwch 3.4) | | | | Amcanion y Blaengynllun Bioamrywiaeth a Gwydnwch (gweler Blwch 3.5) | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 1 | 2 | 3 | 4 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 |
| **1 – Gwella Iechyd a Lles** | | |  | |  |  | |  | |  | | | | | | | | | |
| **2 – Gwella Bioamrywiaeth a Chynyddu Dygnwch Ecosystemau** | |  |  | | | | | | |  | |  |  |  |  |  |  |  |  |
| **3 – Cefnogi Dygnwch Hinsawdd a Natur** | |  | | | | |  | | |  | | | | | | | | | |
| **4 – Cryfhau Cymeriad a Hynodrwydd y Dirwedd** | | |  | | |  | | | |  | | | | | | | | | |
| **5 – Cefnogi Datblygiad Economaidd Cynaliadwy** |  | | | | | | | | | |  | | | | | | | | |

## Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd Strategol Sir Fynwy

Mae'r Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd Strategol yn darparu fframwaith trosfwaol ar gyfer cynllunio, rheoli a darparu SG ar draws y Sir fel rhan annatod o Grid Gwyrdd Gwent ehangach. Mae'r rhwydwaith yn cynnwys coridorau SG strategol sy'n cysylltu asedau SG o fewn y Sir ac mewn ardaloedd cyfagos, gan ddarparu cysylltiadau SG pwysig i brif aneddiadau Sir Fynwy.

Ceir trosolwg o'r anghenion strategol a'r cyfleoedd ar gyfer adfer, cynnal, creu a/neu gysylltu asedau SG i helpu i gryfhau Rhwydwaith SG Strategol Sir Fynwy ar gyfer y dyfodol yng Nghyfrol 1 o'r Strategaeth SG.

**Coridorau SG Strategol:**

1:Gwastadeddau/Arfordir Gwent
2: Dyffryn Gwy a'r Isafonydd
3: Dyffryn Wysg a'r Isafonydd
4: Ucheldiroedd Bannau Brycheiniog

**Parthau SG:**

A: Gwastadeddau Gwent
B: Dyffryn Gwy a Choed Gwent
C: Canol Sir Fynwy – De
D: Canol Sir Fynwy – Gogledd
E: Bannau Brycheiniog a'r Mynyddoedd Du
F: Dwyrain Cymoedd De Cymru

**Rhwydwaith SG Presennol**



Contains OS data © Crown copyright 2023

## Rhwydweithiau Seilwaith Gwyrdd

Wedi'u gosod yng nghyd-destun Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd Strategol Sir Fynwy, mae'r cyfleoedd allweddol ar gyfer cryfhau'r Rhwydweithiau SG o fewn ac o amgylch y prif aneddiadau ac aneddiadau eilaidd a nodwyd i'w datblygu yn Strategaeth a Ffefrir Cynllun Datblygu Lleol Amnewid Sir Fynwy 2018-2033 (a gymeradwywyd ym mis Hydref 2023) yn cael eu hamlygu yn y Strategaeth SG. Lle bo'n briodol, caiff y cyfleoedd hyn eu dwyn ymlaen i'r prosiectau a nodir yn y Cynllun Cyflenwi SG (Cyfrol 2).



Paratowyd gan

CBA





Nottingham Studio Third Floor, The Birkin Building, 2 Broadway, Nottingham NG1 1PS

Contact +44 (0)115 8386737 mail@cbastudios.com www.cbastudios.com

Directors D Watkins BSc MSc MRTPI FRGS FLI • A Croft BA MA MCIfA



CBA is the trading name of Chris Blandford Associates Ltd Registered in England No 03741865. Registered Office: Third Floor, The Birkin Building, 2 Broadway, Nottingham NG1 1PS